Geni Iesu

Mathew 1: 18-24, Luc 1: 26-56, 2: 1-7

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Mathew 1: 18-24, Luc 1: 26-56, 2: 1-7		
1	Roedd merch ifanc o'r enw Mair yn byw yn Nasareth. Roedd Mair yn wyryf (heb erioed gael rhyw), ac wedi ei haddo'n wraig i ddyn o'r enw Joseff.		
2	Anfonodd Duw yr angel Gabriel i Nasareth. Dwedodd Gabriel wrthi, "Mair, mae Duw wedi dangos ffafr atat ti! Mae'r Arglwydd gyda thi!"		
3	"Rwyt ti'n mynd i fod yn feichiog, a byddi di'n cael mab. Iesu ydy'r enw rwyt i'w roi iddo. Bydd yn ddyn pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!"		

4	Ond meddai Mair, “Sut mae'r fath beth yn bosib? Dw i erioed wedi cael rhyw gyda neb.” Dyma'r angel yn esbonio iddi, “Bydd yr Ysbryd Glân yn dod arnat ti, a nerth y Duw Goruchaf yn gofalu amdanat ti. Felly bydd y plentyn fydd yn cael ei eni yn berson sanctaidd — bydd yn cael ei alw yn Fab Duw. Mae hyd yn oed Elisabeth, sy'n perthyn i ti, yn mynd i gael plentyn er ei bod hi mor hen. Rwyt ti'n gweld, does dim byd sy'n amhosib i Dduw ei wneud.”	
5	A dyma Mair yn dweud, “Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyt wedi ei ddweud ddod yn wir.” Wedyn dyma'r angel yn ei gadael hi.	
6	Doedd Joseff ddim eisiau priodi Mair am ei bod hi'n feichiog. Ond roedd Joseff yn ddyn da a charedig. Doedd e ddim eisiau gwneud esiampl ohoni a'i chyhuddo hi'n gyhoeddus, felly roedd yn ystyried yn dawel fach i ganslo'r briodas.	
7	Ond cafodd freuddwyd: gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, “Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwyt i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau.”	

8	Pan ddeffrodd Joseff, gwnaeth beth roedd angel Duw wedi ei ddweud wrtho. Priododd Mair, ond chafodd e ddim rhyw hefo hi nes i'w mab gael ei eni. A rhoddodd yr enw Iesu iddo.	
9	Dyma Mair yn mynd i aros gyda Sachareias ac Elisabeth. Roedd Elisabeth hefyd yn disgwyl babi ac roedd Duw wedi dweud mai ei mab hi fyddai'n cyhoeddi fod yr Arglwydd yn dod, ac y byddai'n paratoi'r bobl ar ei gyfer. Pan gyrhaeddodd Mair y tŷ dyma hi'n cyfarch Elisabeth, a dyma babi Elisabeth yn neidio yn ei chroth hi. Cafodd Elisabeth ei hun ei llenwi â'r Ysbryd Glân pan glywodd lais Mair.	
10	Gwaeddodd Elisabeth yn uchel: “Mair, rwyt ti wedi dy fendithio fwy nag unrhyw wraig arall, a bydd y babi rwyt ti'n ei gario wedi ei fendithio hefyd! Pam mae Duw wedi rhoi'r fath fraint i mi? — cael mam fy Arglwydd yn dod i ngweld i! Wrth i ti nghyfarch i, dyma'r babi sydd yn fy nghroth i yn neidio o lawenydd. Rwyt ti wedi dy fendithio'n fawr, am dy fod wedi credu y bydd yr Arglwydd yn gwneud beth mae wedi ei ddweud wrthot ti.”	
11	Dyma Mair yn ymateb: “O, dw i'n moli'r Arglwydd! Mae Duw, fy Achubwr, wedi fy ngwneud i mor hapus!". Arhosodd Mair gydag Elisabeth am tua tri mis cyn mynd yn ôl adre.	

12	Tua'r un adeg dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad.	
13	Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn Jwdea — yn Bethlehem.	
14	Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo am fod Bethlehem mor brysur. Roedd rhaid iddyn nhw dreulio'r nos mewn stabl (ogof).	
15	Tra roedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni — bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid (preseb).	
16	Roedd Iesu, Achubwr yr holl fyd wedi ei eni, yn union fel yr oedd Duw wedi ei addo.	

Cyfieithwyd gan
www.beibl.net